

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

PENNOD 38

TREFN YR ADRANNAU

RHAN I

Y BWRDD

Adran

1. Sefydlu'r Bwrdd.
2. Aelodaeth y Bwrdd.
3. Swyddogaethau'r Bwrdd.
4. Darpariaethau atodol ynglŷn â'r Bwrdd.

RHAN II

CYNLLUNIAU IAITH GYMRAEG

Dyletswydd i baratoi cynlluniau

5. Dyletswydd cyrff cyhoeddus a hysbysir i baratoi cynlluniau.
6. Ystyr "corff cyhoeddus".
7. Hysbysiadau i gyrff cyhoeddus.
8. Gwrthwynebiadau i'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno cynlluniau.

Canllawiau ynghylch ffurf a chynnwys cynlluniau

9. Dyletswydd i gyhoeddi cynlluniau.
10. Cymeradwyo canllawiau.
11. Adolygu canllawiau.

Paratoi cynlluniau a'u cymeradwyo

12. Paratoi cynlluniau.
13. Ymgynghori ynghylch paratoi cynlluniau.
14. Cymeradwyo cynlluniau neu eu gorfodi.

Adolygu cynlluniau etc

15. Adolygu cynlluniau o bryd i'w gilydd.
16. Diwygio cynlluniau.

Cydymffurfio â chynlluniau

17. Ymchwiliadau.
18. Cwynion am fethu â chydymffurfio.

Adran

19. Adroddiadau ar ymchwiliadau.
20. Cyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Y Goron

21. Personau'n gweithredu ar ran y Goron.

RHAN III**AMRYWIOL***Y Gymraeg mewn achosion cyfreithiol*

22. Defnyddio'r Gymraeg mewn achosion cyfreithiol.
23. Llwon a dwys-haeriadau.
24. Darparu cyfieithwyr.

Enwau, ffurflenni statudol etc

25. Pwerau i roi enwau Cymraeg i gyrff statudol etc.
26. Pwerau i bennu ffurflenni Cymraeg.
27. Darpariaethau'n atodol i adrannau 25 a 26.
28. Cymdeithasau diwydiannol a dar bodus.
29. Undebau credyd.

Cwmnïau

30. Dogfennau ynglŷn â chwmnïau Cymreig.
31. Cyhoeddusrwydd i statws rhwymedigaeth gyfyngedig cwmnïau Cymreig.

Elusennau

32. Elusennau cofrestredig.
33. Datganiad o statws elusennol.

Atodol

34. Hysbysiadau.
35. Diddymiadau a diwygiadau ôl-ddilynol.
36. Cychwyn.
37. Teitl byr.

ATODLENNI:

Atodlen 1 - Y Bwrdd.

Atodlen 2 - Diddymiadau.

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

1993 PENNOD 38

Deddf i sefydlu Bwrdd a chanddo'r swyddogaeth o hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg, i ddarparu i gyrff cyhoeddus baratoi cynlluniau i weithredu'r egwyddor wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, i wneud darpariaeth bellach ynglŷn â'r iaith Gymraeg, i ddiddymu rhai deddfiadau darfodedig ynglŷn â Chymru, ac at ddibenion cysylltiedig. [21 Hydref 1993]

Deddf gan Ardderchocaf Mawrhydi y Frenhines, gyda chynghor a chaniatâd yr Arglwyddi Ysbrydol a Daearyl ac Aelodau Tŷ'r Cyffredin, sydd wedi ymgynnull yn y Senedd bresennol hon, a thrwyddynt a thrwy eu hawdurdod, fel a ganlyn:-

RHAN I

Y BWRDD

1. Bydd corffolaeth gorfforedig a elwir Bwrdd yr Iaith Gymraeg neu the Welsh Language Board. Sefydlu'r Bwrdd.
2. - (1) Bydd y Bwrdd a sefydlir o dan adran 1 uchod (y cyfeirir ato yn y Ddeddf hon fel "y Bwrdd") yn cynnwys hyd at bymtheg aelod a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Aelodaeth y Bwrdd.
- (2) Wrth weithredu ei bŵer i benodi o dan is-adran (1) uchod bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi sylw i ddymunoldeb sicrhau, o fewn aelodaeth y Bwrdd, yr adlewyrchir gwahanol raddau defnyddio'r Gymraeg gan y rhai sy'n byw yng Nghymru, ac amrediad buddiannau'r personau y bydd y Bwrdd yn cynnig cyngor iddynt.

RHAN I

Swyddogaethau'r
Bwrdd.

3. - (1) Swyddogaeth y Bwrdd fydd hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg.

(2) Heb ragfarnu cynnwys cyffredinol is-adran (1) uchod, wrth gyflawni'r swyddogaeth y cyfeirir ati yno bydd y Bwrdd -

- (a) yn cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar faterion ynglŷn â'r iaith Gymraeg;
- (b) yn cynghori personau sy'n ymarfer swyddogaethau o natur gyhoeddus ar y ffyrdd o weithredu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal;
- (c) yn cynghori'r rheiny a phersonau eraill sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ynghylch defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu hymwneud â'r cyhoedd yng Nghymru.

(3) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau canlynol, caiff y Bwrdd wneud unrhyw beth sy'n dod o fewn perfformio'i swyddogaethau neu'n eu hyrwyddo, ac yn arbennig fe gaiff -

- (a) gwneud grantiau a benthyciadau a rhoi gwarantau;
- (b) codi taliadau am ddarparu cyngor neu wasanaethau eraill;
- (c) derbyn rhoddion o arian neu eiddo arall.

(4) Rhaid i'r Bwrdd beidio -

- (a) â gwneud grant neu fenthyciad;
- (b) â rhoi gwarant; neu
- (c) â derbyn neu werthu unrhyw ddiddordeb mewn tir,

ac eithrio gyda chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o'i rhoi gyda chaniatâd y Trysorlys.

Darpariaethau
atodol ynglŷn
â'r Bwrdd.

4. - (1) Bydd y Bwrdd yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau cyffredinol neu arbennig a roir iddo gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a bydd yn rhoi iddo'r gyfryw wybodaeth am ymarfer ei swyddogaethau ag y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn amdani.

(2) Bydd Atodlen 1 y Ddeddf hon mewn grym mewn perthynas â'r Bwrdd.

RHAN II

CYNLLUNIAU IAITH GYMRAEG

Dyletswydd i baratoi cynlluniau

Dyletswydd cyrff
cyhoeddus a
hysbysir i baratoi
cynlluniau.

5. - (1) Bydd pob corff cyhoeddus y cyflwynir hysbysiad iddo o dan adran 7 isod ac sydd -

- (a) yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, neu
- (b) yn ymarfer swyddogaethau statudol mewn perthynas â darparu gwasanaethau gan gyrff cyhoeddus eraill i'r cyhoedd yng Nghymru,

yn paratoi cynllun i bennu'r mesurau y bwriada eu cymryd, at y diben y cyfeirir ato yn is-adran (2) isod, ynglŷn â defnyddio'r iaith Gymraeg mewn cysylltiad â darparu'r gwasanaethau hynny, neu'r cyfryw wasanaethau o'u plith ag a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Y diben y cyfeirir ato yn is-adran (1) uchod yw gweithredu, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yr egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

RHAN II

(3) Wrth baratoi cynllun o dan y Rhan hon o'r Ddeddf hon bydd corff cyhoeddus yn rhoi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Bwrdd o dan adran 9 isod.

6. - (1) Yn y Rhan hon o'r Ddeddf hon ystyr "corff cyhoeddus" yw -
- (a) cyngor sir, cyngor dosbarth neu gyngor cymuned;
 - (b) cyd-bwyllgor o ddau neu ragor o'r cyrff o fewn paragraff (a) uchod;
 - (c) cyd-fwrdd y mae ei aelodau yn ddau neu ragor o'r cyrff o fewn paragraff (a) uchod;
 - (d) awdurdod heddlu;
 - (e) awdurdod tân a gyfansoddwyd drwy gyfrwng cynllun cyfuno o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947; 1947 p.41.
 - (f) awdurdod iechyd o fewn ystyr Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977; 1977 p.49.
 - (g) ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol a gyfansoddwyd o dan Ran I Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990; 1990 p.19.
 - (h) Awdurdod Gwasanaethau Iechyd y Teulu;
 - (i) Cyngor Iechyd Cymdeithas a sefydlwyd yn unol ag adran 20 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977; 1977 p. 49.
 - (j) Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru;
 - (k) Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;
 - (l) Llywodraethwyr ysgol sirol, ysgol wirfoddol, ysgol arbennig a gynhelir neu ysgol a gynhelir â grant (o fewn ystyr Deddfau Addysg 1944 hyd 1992);
 - (m) corfforaeth addysg bellach a sefydlwyd o dan adran 15 neu 16 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992; 1992 p.13.
 - (n) corfforaeth addysg uwch a sefydlwyd o dan adran 121 neu 122 Deddf Diwygio Addysg 1988; 1988 p.40.
 - (o) unrhyw berson (p'un a yw'n gorffolaeth gorfforedig neu anghorfforedig ai peidio) -
 - (i) y mae'n ymddangos i'r Ysgrifennydd Gwladol ei fod yn ymarfer swyddogaethau o natur gyhoeddus, neu
 - (ii) y mae'n ymddangos i'r Ysgrifennydd Gwladol fod y cyfan neu bron y cyfan o'i weithgareddau yn cael eu cynnal o dan gytundeb, neu yn unol â threfniadau, a wnaed gyda chorff cyhoeddus o fewn paragraffau (a) i (n) uchod neu is-baragraff (i) uchod neu berson sy'n gweithredu fel gwas neu asiant i'r Goron, ac a bennir, neu sy'n ateb disgrifiad personau a bennir, drwy orchymyn a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion y Rhan hon o'r Ddeddf hon.

(2) Gellir ymarfer y pŵer i wneud gorchymyn o dan yr adran hon drwy offeryn statudol, a fydd yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan y naill neu'r llall o ddau Dŷ'r Senedd.

RHAN II
Hysbysiadau i
gyrff cyhoeddus.

7. - (1) Caiff y Bwrdd gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig o dan yr adran hon i unrhyw gorff cyhoeddus.

(2) Bydd hysbysiad o dan is-adran (1) uchod -

- (a) yn datgan ei bod yn ofynnol i'r corff cyhoeddus y cyflwynir yr hysbysiad iddo baratoi cynllun yn unol ag adran 5 uchod;
- (b) yn pennu erbyn pa ddyddiad y mae'n ofynnol i'r corff hwnnw gyflwyno'r cynllun i'r Bwrdd;
- (c) yn rhoi gwybod i'r corff hwnnw am ei hawliau i wrthwynebu o dan adran 8(1) isod.

(3) Bydd y Bwrdd yn rhoi copi o'r canllawiau cyfredol a gyhoeddwyd o dan adran 9 isod i unrhyw gorff cyhoeddus y mae'n cyflwyno hysbysiad iddo o dan is-adran (1) uchod.

(4) Gellir cyflwyno hysbysiadau gwahanol i gorff cyhoeddus o dan yr adran hon mewn perthynas â gwasanaethau gwahanol.

Gwrthwynebiadau
i'r terfynau
amser ar gyfer
cyflwyno
cynlluniau.

8. - (1) Caiff person y mae'r Bwrdd wedi cyflwyno hysbysiad iddo o dan adran 7 uchod, drwy hysbysiad ysgrifenedig i'r Bwrdd, wrthwynebu'r dyddiad a bennwyd yn yr hysbysiad o dan adran 7 yn ddyddiad diwethaf ar gyfer cyflwyno'r cynllun i'r Bwrdd.

(2) Rhaid i hysbysiad o dan yr adran hon gael ei gyflwyno o fewn y cyfryw amser ag a bennir gan y Bwrdd yn yr hysbysiad a gyflwynwyd ganddo o dan adran 7 uchod.

(3) Rhaid i hysbysiad o dan yr adran hon roi'r rhesymau dros unrhyw wrthwynebiad y mae'n cyfeirio ato.

(4) Wrth ystyried gwrthwynebiad a wnaed yn unol â'r adran hon, caiff y Bwrdd naill ai ei wrthod neu gynnig ymestyn y terfyn amser o dan sylw.

(5) Os bydd y Bwrdd yn cynnig ymestyn y cyfnod amser a'r gwrthwynebydd yn cytuno â'r cynnig, bydd yr hysbysiad o dan adran 7 uchod mewn grym gyda'r dyddiad y cytunir arno wedi'i gynnwys.

(6) Os bydd y Bwrdd yn gwrthod y gwrthwynebiad neu os na fydd y gwrthwynebydd yn cytuno â chynnig a wnaed gan y Bwrdd ac, yn y naill achos neu'r llall, os na thynnir y gwrthwynebiad yn ôl, bydd y Bwrdd yn cyfeirio'r gwrthwynebiad at yr Ysgrifennydd Gwladol.

(7) Wrth gyfeirio gwrthwynebiad at yr Ysgrifennydd Gwladol, bydd y Bwrdd yn anfon ato -

- (a) copi o'r hysbysiad o dan adran 7,
- (b) copi o'r hysbysiad a gyflwynwyd gan y gwrthwynebydd o dan yr adran hon, a
- (c) datganiad o resymau'r Bwrdd dros ei benderfyniadau ar y gwrthwynebiad.

(8) Yn achos cyfeiriad o dan yr adran hon caiff yr Ysgrifennydd Gwladol gadarnhau penderfyniad y Bwrdd i wrthod y gwrthwynebiad, neu caiff gyfarwyddo i'r hysbysiad o dan adran 7 uchod fod mewn grym gyda dyddiad diweddarach wedi'i gynnwys yn lle'r dyddiad y cyfeirir ato yn is-adran (1) uchod (a chaiff y dyddiad diweddarach hwnnw fod yr un fath ag unrhyw ddyddiad a gynnigir gan y Bwrdd o dan yr adran hon neu'n ddiweddarach nag ef).

Canllawiau ynghylch ffurf a chynnwys cynlluniau

Dyletswydd i
gyhoeddi
canllawiau.

9. - (1) Bydd y Bwrdd yn cyhoeddi canllawiau ynghylch ffurf a chynnwys cynlluniau y mae'r Rhan hon o'r Ddeddf hon yn gymwys iddynt.

(2) Ni chyhoeddir canllawiau gan y Bwrdd o dan yr adran hon oni bai bod drafft ohonynt wedi'i gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

RHAN II

(3) Bydd y Bwrdd yn trefnu i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir o dan yr adran hon gael eu cyhoeddi yn y cyfryw fodd ag y gwêl yn dda.

10. - (1) Cyn gynted ag y bydd yn rhesymol ymarferol ar ôl i'r Ddeddf hon gychwyn bydd y Bwrdd yn paratoi drafft o unrhyw ganllawiau y bwriada eu cyhoeddi o dan adran 9 uchod a bydd yn anfon copïau o'r drafft -

Cymeradwyo
canllawiau.

(a) at y personau hynny y mae'n debyg y bydd yn ofynnol iddynt baratoi cynlluniau, a

(b) i'r cyfryw gyrff sy'n cynrychioli aelodau o'r cyhoedd y bydd y cynlluniau'n effeithio arnynt ag y cred eu bod yn briodol.

(2) Ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir iddo ynghylch y canllawiau drafft a gwneud unrhyw ddiwygiadau y cred eu bod yn briodol, bydd y Bwrdd yn anfon adroddiad ar y sylwadau a chopi o'r drafft at yr Ysgrifennydd Gwladol.

(3) Ar ôl ystyried adroddiad y Bwrdd a'r canllawiau drafft, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo'r drafft, naill ai heb ei ddiwygio neu gyda'r cyfryw ddiwygiadau ag y cred ef eu bod yn briodol.

(4) Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyflwyno gerbron y Senedd gopi o unrhyw ganllawiau drafft a gaiff oddi wrth y Bwrdd, gydag unrhyw ddiwygiadau a wneir ganddo o dan is-adran (3) uchod.

(5) Os bydd y naill neu'r llall o ddau Dŷ'r Senedd yn pasio penderfyniad yn ei gwneud yn ofynnol i'r drafft gael ei dynnu'n ôl, bydd y Bwrdd yn paratoi drafft yn lle'r un y mae'r penderfyniad yn ymwneud ag ef; a bydd yr adran hon yn gymwys mewn perthynas â'r drafft newydd fel y mae'n gymwys mewn perthynas â'r drafft gwreiddiol.

(6) Ni chaiff penderfyniad ei basio gan y naill neu'r llall o ddau Dŷ'r Senedd o dan is-adran (5) uchod wedi i gyfnod o 40 niwrnod ddod i ben gan ddechrau ar y diwrnod pryd y cyflwynwyd y drafft gerbron y Tŷ hwnnw; ond at ddibenion yr is-adran hon ni chymerir i ystyriaeth unrhyw amser pryd y mae'r Senedd wedi'i diddymu neu wedi'i hatal neu pryd y mae'r ddau Dŷ wedi'u gohirio am fwy na phedwar diwrnod.

11. Ar y cyfryw adegau ag y gwêl yn dda bydd y Bwrdd yn adolygu'r canllawiau a gyhoeddwyd ganddo o dan adran 9 uchod, a bydd yr adran honno ac adran 10 uchod yn gymwys mewn perthynas â'r canllawiau diwygiedig fel y maent yn gymwys mewn perthynas â'r canllawiau a gyhoeddwyd gyntaf.

Adolygu
canllawiau.

Paratoi cynlluniau a'u cymeradwyo

12. - (1) Rhaid i gorff cyhoeddus y mae'r Bwrdd wedi cyflwyno hysbysiad iddo o dan adran 7 uchod gyflwyno cynllun i'r Bwrdd cyn y dyddiad a bennwyd yn yr hysbysiad.

Paratoi
cynlluniau.

(2) Rhaid i gynllun gynnwys darpariaethau i bennu -

(a) amserlen ar gyfer gweithredu'r mesurau a gynigir yn y cynllun;

(b) ym mha ffyrdd y bydd y corff cyhoeddus yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun.

RHAN II
Ymgynghori
ynghylch paratoi
cynlluniau.

13. - (1) Rhaid i gorff cyhoeddus sy'n paratoi cynllun i'w gyflwyno i'r Bwrdd ymgynghori fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau sylwadau i gynrychioli aelodau Cymraeg ac aelodau eraill o'r cyhoedd y gall y cynllun effeithio arnynt.

(2) Rhaid i gorff cyhoeddus gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roir iddo gan y Bwrdd mewn cysylltiad â chyflawni ei ddyletswydd o dan is-adran (1) uchod.

Cymeradwyo
cynlluniau neu
eu gorfodi.

14. - (1) Os bydd cynllun yn ymddangos yn foddhaol i'r Bwrdd, naill ai fel y'u cyflwynwyd i'r Bwrdd neu gydag addasiadau y cytunwyd arnynt rhwng y Bwrdd a'r corff cyhoeddus a'i cyflwynodd, bydd y Bwrdd yn cymeradwyo'r cynllun.

(2) Os -

(a) na chyflwynir cynllun i'r Bwrdd cyn y dyddiad a bennwyd yn yr hysbysiad o dan adran 7 uchod, neu'r cyfryw ddyddiad diweddarach ag a ganiateir gan y Bwrdd, neu

(b) os cyflwynwyd cynllun cyn y dyddiad hwnnw (neu'r dyddiad diweddarach hwnnw) ond heb ei gymeradwyo gan y Bwrdd, caiff y Bwrdd, neu mewn achos o fewn paragraff (b) uchod naill ai'r Bwrdd neu'r corff cyhoeddus sy'n cyflwyno'r cynllun, gyfeirio'r mater at yr Ysgrifennydd Gwladol.

(3) Yn achos cyfeiriad o dan is-adran (2) uchod, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, mewn achos o fewn paragraff (a) yn yr is-adran honno, ofyn i'r corff cyhoeddus o dan sylw gyflwyno cynllun i'r Bwrdd cyn dyddiad a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol; ac os gwnaiff hynny, bydd y Rhan hon o'r Ddeddf hon yn gymwys fel pe bai'r dyddiad hwnnw wedi'i roi yn lle'r dyddiad a bennwyd yn rhinwedd adran 7(2)(b) uchod.

(4) Yn achos cyfeiriad o dan is-adran (2) uchod, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, mewn achos o fewn paragraff (b) yn yr is-adran honno, ofyn i'r Bwrdd a'r corff cyhoeddus o dan sylw geisio dod i gytundeb ar delerau cynllun cyn dyddiad a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol; ac os gwnaiff hynny ni fydd yn ymarfer ei bwerau o dan is-adran (5) isod cyn y dyddiad hwnnw.

(5) Yn achos cyfeiriad o dan is-adran (2) uchod, mewn unrhyw achos caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ei hun benderfynu ar delerau cynllun; ac os gwnaiff hynny -

(a) bydd yn anfon copi o'r cynllun i'r Bwrdd ac i'r corff cyhoeddus o dan sylw, a

(b) bydd y Rhan hon o'r Ddeddf hon yn gymwys wedyn fel pe bai'r cynllun wedi'i gyflwyno gan y corff ac wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd.

Adolygu cynlluniau etc

Adolygu
cynlluniau o bryd
i'w gilydd.

15. - (1) Ar unrhyw adeg ar ôl i'r Bwrdd yn unol ag adran 11 uchod gyhoeddi canllawiau diwygiedig o dan adran 9 uchod, fe gaiff, drwy hysbysiad ysgrifenedig i unrhyw gorff cyhoeddus y mae wedi cymeradwyo'i gynllun, ei gwneud yn ofynnol i'r corff hwnnw adolygu'r cynllun a chyflwyno datganiad o'i gasgliadau i'r Bwrdd.

(2) Ar ôl cael datganiad o dan is-adran (1) uchod, fe gaiff y Bwrdd, drwy hysbysiad ysgrifenedig, ei gwneud yn ofynnol i'r corff cyhoeddus gyflwyno cynllun diwygiedig i'r Bwrdd cyn y cyfryw ddyddiad ag a bennir yn yr hysbysiad.

(3) Bydd adrannau 12 i 14 uchod, gyda'r addasiadau angenrheidiol, yn gymwys lle cyflwynir hysbysiad o dan is-adran (2) uchod fel y maent yn gymwys lle cyflwynir hysbysiad o dan adran 7 uchod.

RHAN II

16. - (1) Lle y mae cynllun a baratowyd gan gorff cyhoeddus wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd, caiff naill ai'r corff cyhoeddus neu'r Bwrdd ar unrhyw adeg drwy hysbysiad ysgrifenedig i'r llall gynnig diwygiadau i'r cynllun.

Diwygio
cynlluniau.

(2) Ni fydd y Bwrdd yn ymarfer y pŵer a roir gan is-adran (1) uchod ac eithrio lle y mae'n fodlon bod diwygiadau i'r cynllun yn briodol oherwydd newidiadau yn swyddogaethau'r corff cyhoeddus neu yn yr amgylchiadau y cyflawnir y swyddogaethau hynny odanynt.

(3) Os cytunir rhwng y corff cyhoeddus a'r Bwrdd ar y diwygiadau a gynigiwyd, naill ai fel y'u cynigiwyd neu gydag addasiadau, bydd y cynllun mewn grym wedyn yn ddarostyngedig i'r diwygiadau.

(4) Os na chytunir ar y diwygiadau, caiff naill ai'r corff cyhoeddus neu'r Bwrdd gyfeirio'r mater at yr Ysgrifennydd Gwladol.

(5) Yn achos cyfeiriad o dan is-adran (4) uchod, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ofyn i'r Bwrdd a'r corff cyhoeddus o dan sylw geisio dod i gytundeb ar y diwygiadau cyn dyddiad a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol; ac os gwnaiff hynny ni fydd yn ymarfer ei bwerau o dan is-adran (6) isod cyn y dyddiad hwnnw.

(6) Yn achos cyfeiriad o dan is-adran (4) uchod, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol -

- (a) penderfynu na ddylid gwneud unrhyw ddiwygiadau, neu
- (b) penderfynu ei hun ar y diwygiadau sydd i'w gwneud i'r cynllun (sef o bosibl y diwygiadau a gynigiwyd, naill ai gydag addasiadau neu hebddynt, neu ddiwygiadau eraill).

(7) Lle bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, yn unol ag is-adran (6) uchod, yn penderfynu ar y diwygiadau sydd i'w gwneud i gynllun -

- (a) bydd yn anfon copi o'r diwygiadau i'r Bwrdd ac i'r corff cyhoeddus o dan sylw, a
- (b) bydd y cynllun mewn grym wedyn yn ddarostyngedig i'r diwygiadau.

Cydymffurfio â chynlluniau

17. - (1) Lle ymddengys i'r Bwrdd, boed yn sgîl cwyn a wnaed iddo o dan adran 18 isod neu fel arall, y gall corff cyhoeddus fod wedi methu â chyflawni cynllun a gymeradwywyd gan y Bwrdd, caiff y Bwrdd gynnal ymchwiliad er mwyn gweld a fu methiant.

Ymchwiliadau.

(2) Bydd y drefn ar gyfer cynnal ymchwiliad o dan yr adran hon yn gyfryw ag y cred y Bwrdd ei bod yn briodol o dan amgylchiadau'r achos, ac yn arbennig gellir cynnal ymchwiliad yn breifat.

(3) Caiff y Bwrdd, os cred ei bod yn briodol gwneud hynny, dalu i unrhyw berson a fydd yn bresennol mewn ymchwiliad neu a fydd yn rhoi gwybodaeth at ei ddibenion -

- (a) symiau mewn perthynas â'r treuliau a dynnwyd yn briodol ganddo, a

RHAN II

(b) lwfansau yn iawndal am yr amser y mae wedi'i golli, yn unol â'r cyfryw raddfeydd ac yn ddarostyngedig i'r cyfryw amodau ag a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chymeradwyaeth y Trysorlys.

Cwynion am fethu
â chydymffurfio.

18. - (1) Mae'r adran hon yn gymwys -

- (a) lle cyflwynir cwyn ysgrifenedig i'r Bwrdd gan berson sy'n honni bod methiant gan gorff cyhoeddus i gyflawni cynllun a gymeradwywyd gan y Bwrdd wedi effeithio'n uniongyrchol arno,
- (b) lle gwneir y gwyn o fewn y cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dechrau ar y diwrnod pryd y gwybu'r achwynydd gyntaf am y materion a honnir yn y gwyn, ac
- (c) lle y mae'r Bwrdd yn fodlon bod yr achwynydd wedi dod â'r mater y cwynir amdano i sylw'r corff cyhoeddus o dan sylw a bod y corff hwnnw wedi cael cyfle rhesymol i'w ystyried ac i ymateb.

(2) Lle y mae'r adran hon yn gymwys, bydd y Bwrdd naill ai'n ymchwilio i'r gwyn honno o dan adran 17 uchod neu'n anfon datganiad o'i resymau dros beidio â gwneud at yr achwynydd.

Adroddiadau ar
ymchwiliadau.

19. - (1) Lle bydd y Bwrdd yn cynnal ymchwiliad o dan adran 17 uchod, bydd yn anfon adroddiad am ganlyniadau'r ymchwiliad i'r corff cyhoeddus o dan sylw, at yr Ysgrifennydd Gwladol ac, lle cynhelir yr ymchwiliad yn sgîl cwyn a wnaed o dan adran 18 uchod, at yr achwynydd (p'un a dynnir y gwyn yn ôl cyn gorffen yr ymchwiliad ai peidio).

(2) Lle cred y Bwrdd y byddai'n briodol i adroddiad ar ganlyniadau ymchwiliad gael ei gyhoeddi, naill ai ar ffurf yr adroddiad a wneir o dan is-adran (1) uchod neu ar ryw ffurf arall, caiff y Bwrdd drefnu ei gyhoeddi yn y cyfryw fodd ag y gwêl yn dda.

(3) Lle bydd y Bwrdd, ar ôl gorffen ymchwiliad, yn fodlon bod y corff cyhoeddus o dan sylw wedi methu â chyflawni'r cynllun, caiff y Bwrdd gynnwys yn ei adroddiad argymhellion ynghylch camau i'w cymryd gan y corff cyhoeddus er mwyn cywiro'r methiant neu er mwyn osgoi methiant yn y dyfodol.

Cyfarwyddiadau
gan yr
Ysgrifennydd
Gwladol.

20. - (1) Os ymddengys ar unrhyw adeg i'r Bwrdd fod corff cyhoeddus wedi methu â chymryd unrhyw gamau a argymhellwyd mewn adroddiad o dan adran 19 uchod, caiff y Bwrdd gyfeirio'r mater at yr Ysgrifennydd Gwladol.

(2) Yn achos cyfeiriad o dan yr adran hon os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd iddo gan y Bwrdd a chan y corff cyhoeddus o dan sylw, fod y corff wedi methu â chymryd unrhyw gamau a argymhellwyd yn yr adroddiad, caiff roi'r cyfryw gyfarwyddiadau i'r corff cyhoeddus ag y cred eu bod yn briodol.

(3) Gellir gorfodi unrhyw gyfarwyddiadau a roir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan is-adran (2) uchod, os gwneir cais ganddo, drwy gyfrwng mandamws.

Y Goron

Personau'n
gweithredu ar ran y
Goron.

21. - (1) Nid yw cyfeiriadau yn y Rhan hon o'r Ddeddf hon at gyrff cyhoeddus yn cynnwys cyfeiriadau at unrhyw berson sy'n gweithredu fel gwas neu asiant i'r Goron; ond bydd darpariaethau canlynol yr adran hon yn gymwys lle bydd y cyfryw berson wedi mabwysiadu neu'n bwriadu mabwysiadu cynllun iaith Gymraeg.

(2) Bydd person sydd wedi mabwysiadu cynllun iaith Gymraeg cyn cychwyn y Ddeddf hon yn anfon copi ohono i'r Bwrdd.

RHAN II

(3) Bydd person sy'n paratoi cynllun iaith Gymraeg ar ôl i'r Ddeddf hon gychwyn yn rhoi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Bwrdd o dan adran 9 uchod, a chyn ei fabwysiadu bydd yn anfon y cynllun arfaethedig i'r Bwrdd.

(4) Lle bydd y Bwrdd yn awgrymu diwygiadau i gynllun neu gynllun arfaethedig a anfonwyd gan unrhyw berson i'r Bwrdd yn uniol ag is-adran (2) neu (3) uchod, bydd y person hwnnw, os na fydd yn gweithredu'r diwygiadau, yn anfon datganiad ysgrifenedig o'r rhesymau dros beidio â gwneud i'r Bwrdd.

(5) Bydd adrannau 17 i 19 uchod yn gymwys mewn perthynas â phersonau y mae'r adran hon yn gymwys iddynt ac i gynlluniau iaith Gymraeg a fabwysiedir ganddynt fel y maent yn gymwys i gyrff cyhoeddus a chynlluniau a gymeradwyr gan y Bwrdd.

(6) Yn yr adran hon ystyr "cynllun iaith Gymraeg" yw cynllun sy'n pennu mesurau y mae'r person sy'n paratoi'r cynllun yn bwriadu eu cymryd ynglŷn â defnyddio'r iaith Gymraeg mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru gan y person hwnnw, neu gan eraill sy'n gweithredu fel gweision neu asiantau i'r Goron neu n gyrff cyhoeddus.

RHAN III

AMRYWIOL

Y Gymraeg mewn achosion cyfreithiol

22. - (1) Mewn unrhyw achosion cyfreithiol yng Nghymru gellir siarad Cymraeg gan unrhyw barti, tyst neu berson arall sy'n dymuno'i defnyddio, yn ddarostyngedig mewn achosion mewn llys heblaw llys ynadon i'r cyfryw rybudd ymlaen llaw ag a fydd yn ofynnol yn ôl rheolau'r llys; a gwneir unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer cyfieithu yn unol â hyn.

Defnyddio'r
Gymraeg mewn
achosion
cyfreithiol.

(2) Mae unrhyw bŵer i wneud rheolau llys yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer defnyddio dogfennau Cymraeg mewn achosion yng Nghymru neu sydd â chysylltiad â Chymru.

23. Caiff yr Arglwydd Ganghellor wneud rheolau i bennu cyfieithiad yn yr iaith Gymraeg o unrhyw ffurf a bennir am y tro gan y gyfraith fel ffurf unrhyw lw neu ddwys-haeriad i'w roi a'i gymryd neu ei wneud gan unrhyw berson mewn unrhyw lys, a bydd i lw neu ddwys-haeriad a roir a'i gymryd neu ei wneud mewn unrhyw lys yng Nghymru yn y cyfieithiad a bennir gan y cyfryw reolau, heb ei ddehongli, yr un grym â phe bai wedi'i roi a'i gymryd neu ei wneud yn yr iaith Saesneg.

Llwon a
dwys-haeriadau.

24. - (1) Caiff yr Arglwydd Ganghellor wneud rheolau ynghylch darparu a chyflogi cyfieithwyr Cymraeg a Saesneg at ddibenion achosion gerbron llysoedd yng Nghymru.

Darparu
cyfieithwyr.

(2) Telir i'r cyfieithwyr, o'r un gronfa ag y telir treuliau'r llys, y cyfryw dâl mewn perthynas â'u gwasanaethau ag a bennir gan yr Arglwydd Ganghellor.

(3) Ymarferir pwerau'r Arglwydd Ganghellor o dan yr adran hon gyda chaniatâd y Trysorlys.

RHAN III

Enwau, ffurflenni statudol etc

Pwerau i roi
enwau Cymraeg
i gyrff statudol
etc.

25. - (1) Lle rhoir enw gan Ddeddf Seneddol i unrhyw gorff, swyddfa neu le, caiff y Gweinidog priodol, drwy orchymyn, roi i'r corff, y swyddfa neu'r lle enw arall yn y Gymraeg.

(2) Lle y mae Deddf Seneddol yn rhoi pŵer, i'w weithredu drwy offeryn statudol, i roi enw i unrhyw gorff, swyddfa neu le, bydd y pŵer yn cynnwys pŵer i roi enwau gwahanol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

(3) Ni fydd yr adran hon yn gymwys mewn perthynas ag enw a roddwyd i unrhyw ardal neu awdurdod lleol gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, nac i unrhyw bŵer y gellir ei weithredu o dan y Ddeddf honno.

1972 p. 70.

Pwerau i bennu
ffurflenni
Cymraeg.

26. - (1) Mae'r adran hon yn gymwys lle y mae Deddf Seneddol yn pennu, neu'n rhoi pŵer i bennu, -

(a) ffurf unrhyw ddogfen, neu

(b) unrhyw ffurfeiriad,

sydd i'w defnyddio neu y gellir eu defnyddio at ddiben swyddogol neu gyhoeddus neu at unrhyw ddiben arall lle y mae canlyniadau unrhyw weithred yn y gyfraith yn dibynnu ar y ffurf a ddefnyddir.

(2) Lle y mae'r Ddeddf ei hun yn pennu ffurf y ddogfen neu'r ffurfeiriad, caiff y Gweinidog priodol bennu drwy orchymyn -

(a) ffurf y ddogfen yn Gymraeg, neu'n rhannol Gymraeg ac yn rhannol Saesneg neu, yn ôl y digwydd,

(b) ffurfeiriad Cymraeg,

i'w defnyddio o dan y cyfryw amgylchiadau ac yn ddarostyngedig i'r cyfryw amodau ag a bennir gan y gorchymyn.

(3) Lle y mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i bennu ffurf y ddogfen neu'r ffurfeiriad, bydd y pŵer yn cynnwys pŵer i bennu -

(a) ffurfiau ar wahân o'r ddogfen, neu ffurfeiriad ar wahân, yn Gymraeg a Saesneg, a

(b) yn achos dogfen, ffurf rannol Gymraeg a rhannol Saesneg,

i'w defnyddio o dan y cyfryw amgylchiadau ac yn ddarostyngedig i'r cyfryw amodau ag a bennir yn yr offeryn yr ymarferir y pŵer drwyddo.

(4) Lle yr ymarferir y pwerau a roir gan yr adran hon mewn perthynas â ffurf dogfen neu ffurfeiriad, cymerir cyfeiriad mewn Deddf neu offeryn at y ffurf, cyn belled ag y bo'n angenrheidiol fel (neu fel pe bai'n cynnwys) cyfeiriad at y ffurf a bennir o dan yr adran hon neu yn rhinwedd yr adran hon.

(5) Ni fydd yr adran hon yn gymwys mewn perthynas â darpariaeth sydd -

(a) yn rhoi, neu'n rhoi'r pŵer i roi, enw i unrhyw gorff, swyddfa neu le, neu

(b) yn ei gwneud yn ofynnol cynnwys geiriau penodedig yn enw unrhyw gorff, swyddfa neu le.

27. - (1) Bydd i unrhyw beth a wneir yn Gymraeg yn rhinwedd adran 26 uchod yr un effaith â phe bai wedi'i wneud yn Saesneg.

RHAN III

(2) Bydd unrhyw ddarpariaeth sy'n awdurdodi -

Darpariaethau'n atodol i adrannau 25 a 26.

(a) defnyddio dogfen neu eiriau i'r un effaith â dogfen neu eiriau y pennwyd fersiwn arall ohonynt yn rhinwedd adran 26 uchod, neu

(b) mabwysiadu dogfen neu eiriau y pennwyd fersiwn arall ohonynt fel hyn,

yn gymwys mewn perthynas â'r ddwy fersiwn.

(3) Gellir ymarfer y pwerau i wneud gorchmynion o dan adrannau 25(1) a 26(2) uchod drwy offeryn statudol, sydd i'w gyflwyno gerbron y Senedd ar ôl ei wneud.

(4) Mae cyfeiriadau yn adrannau 25 a 26 uchod at Ddeddf Seneddol yn cynnwys cyfeiriadau at Ddeddfau a gaiff eu pasio ar ôl y Ddeddf hon; ac yn yr adrannau hynny ystyr "y Gweinidog priodol" mewn perthynas ag unrhyw Ddeddf yw -

(a) yn achos darpariaethau y mae Gweinidog heblaw'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfrifol am eu gweithredu yng Nghymru, y Gweinidog hwnnw, a

(b) mewn unrhyw achos arall, yr Ysgrifennydd Gwladol.

(5) Y Trysorlys a fydd yn penderfynu ar unrhyw gwestiwn sy'n codi o dan baragraffau (a) a (b) is-adran (4) uchod; ac yn yr is-adran honno mae "Gweinidog" yn cynnwys y Trysorlys, Comisiynwyr y Tollau Tramor a Chartref a Chomisiynwyr Cyllid y Wlad.

28. - (1) Diwygir Adran 5 Deddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 (enw'r gymdeithas) fel a ganlyn.

Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 p.12.

(2) Yn is-adran (2), yn lle'r geiriau o "the word" hyd at y diwedd dodir y geiriau "the last word in the name of every society registered under this Act shall be "limited" or, if the rules of the society state that its registered office is to be in Wales, either that word or the word "cyfyngedig".

(3) Yn is-adran (5) -

(a) ar ôl y geiriau "contain the words "limited"" dodir y geiriau "or the word "cyfyngedig",

(b) yn lle'r geiriau "that word" dodir y geiriau "either of those words", ac

(c) ar ôl y geiriau "that the word "limited"" dodir y geiriau "or in an appropriate case the word "cyfyngedig",.

29. - (1) Diwygir adran 3 Deddf Undebau Credyd 1979 (defnyddio'r enw "credit union", etc) fel a ganlyn.

Undebau credyd. 1979 p.34.

(2) Yn is-adran (1), ychwanegir ar y diwedd y geiriau "or, if the rules of the society state that its registered office is to be in Wales, either those words or the words "undeb credyd".

(3) Yn is-adran (2), ar ôl y geiriau "credit union" or" dodir y geiriau "undeb credyd" or".

RHAN III

Dogfennau
ynghlŷn â
chwmnïau
Cymreig.
1985 p. 6.

30. - (1) Diwygir Deddf Cwmnïau 1985 fel a ganlyn.

(2) Bydd adran 21 (dogfennau cofrestredig cwmnïau Cymreig) yn peidio â bod mewn grym.

(3) Yn adran 228(2)(f) (y mae'r amgylchiadau ynghlŷn ag eithriad rhag y gofyniad i ddarparu cyfrifon grŵp odani yn cynnwys darparu cyfieithiadau o rai dogfennau), ar y dechrau dodir y geiriau "(subject to section 710B(6) (delivery of certain Welsh documents without translation))".

(4) Dodir y geiriau "then, subject to section 710B(6) (delivery of certain Welsh documents without translation)," -

(a) ar ôl y geiriau "other than English" yn adrannau 242(1) a 243(4) a pharagraff 7(3) Rhan II Atodlen 9, a

(b) ar ôl y geiriau "does not apply" yn adrannau 272(5) a 273(7), (y mae pob un ohonynt yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno rhai dogfennau mewn ieithoedd heblaw Saesneg i'r cofrestrydd gyda chyfieithiad).

(5) Bydd adran 255E (dogfennau cyfrifo cwmnïau preifat Cymreig) yn peidio â bod mewn grym.

(6) Ar ôl adran 710A dodir -

"Documents
relating to Welsh
companies.

710B. - (1) This section applies to any document which -

(a) is delivered to the registrar under this Act or the Insolvency Act 1986, and

(b) relates to a company (whether already registered or to be registered) whose memorandum states that its registered office is to be situated in Wales.

(2) A document to which this section applies may be in Welsh but, subject to subsection (3), shall on delivery to the registrar be accompanied by a certified translation into English.

(3) The requirement for a translation imposed by subsection (2) shall not apply -

(a) to documents of such descriptions as may be prescribed for the purposes of this paragraph, or

(b) to documents in a form prescribed in Welsh (or partly in Welsh and partly in English) by virtue of section 26 of the Welsh Language Act 1993.

(4) Where by virtue of subsection (3) the registrar receives a document in Welsh without a certified translation into English, he shall, if that document is to be available for inspection, himself obtain such a translation; and that translation shall be treated as delivered to him in accordance with the same provision as the original.

1986 c. 45.

1993 c. 0.

(5) A company whose memorandum states that its registered office is to be situated in Wales may deliver to the registrar a certified translation into Welsh of any document in English which relates to the company and which is or has been delivered to the registrar.

RHAN III

(6) The provisions within subsection (7) (which require certified translations into English of certain documents delivered to the registrar) shall not apply where a translation is required by subsection (2) or would be required but for subsection (3).

(7) The provisions within this subsection are section 228(2)(f), the second sentence of section 242(1), sections 243(4), 272(5) and 273(7) and paragraph 7(3) of Part II of Schedule 9.

(8) In this section "certified translation" means a translation certified in the prescribed manner to be a correct translation."

31. Yn adran 351 Deddf Cwmnïau 1985, bydd is-adrannau (3) a (4) (sy'n ei gwneud yn ofynnol i statws cwmni y mae ei enw'n gorffen mewn "cwmni cyfyngedig cyhoeddus" neu "cyfyngedig" ymddangos mewn Saesneg ar rai dogfennau) yn peidio â bod mewn grym.

Cyhoeddusrwydd i statws rhwymedigaeth gyfyngedig cwmnïau Cymreig. 1985 p. 6.

Elusennau

32. - (1) Diwygir adran 5 Deddf Elusennau 1993 (sy'n ei gwneud yn ofynnol i statws elusen gofrestredig ymddangos mewn Saesneg ar rai dogfennau) fel a ganlyn.

Elusennau cofrestredig. 1993 p. 10.

(2) Yn is-adran (2), dileir y geiriau "in English".

(3) Ar ôl is-adran (2), dodir -

"(2A) The statement required by subsection (2) above shall be in English, except that, in the case of a document which is otherwise wholly in Welsh, the statement may be in Welsh if it consists of or includes the words "elusen gofrestredig" (the Welsh equivalent of "registered charity")."

(4) Yn is-adran (4), yn lle'r geiriau o "in which" hyd at "stated as" dodir y geiriau "which does not contain the statement".

(5) Yn is-adran (5), yn lle'r geiriau o "in which" hyd at "stated as" dodir "which does not contain the statement".

33. - (1) Diwygir adran 68 Deddf Elusennau 1993 (sy'n ei gwneud yn ofynnol i statws elusen sy'n gwmni ymddangos mewn Saesneg ar rai dogfennau) fel a ganlyn.

Datganiad o statws elusennol.

(2) Yn is-adran (1) -

(a) ar ôl y geiriau "the word "charitable"" dodir y geiriau "then, subject to subsection (1A)", a

(b) dileir y geiriau "in English".

(3) Ar ôl is-adran (1), dodir -

RHAN III

“(1A) Where a company’s name includes the word “elusen” or the word “elusenno” (the Welsh equivalents of the words “charity” and “charitable”), subsection (1) above shall not apply in relation to any document which is wholly in Welsh.

(1B) The statement required by subsection (1) above shall be in English, except that, in the case of a document which is otherwise wholly in Welsh, the statement may be in Welsh if it consists of or includes the word “elusen” or the word “elusenno”.”.

Atodol

Hysbysiadau.

34. - (1) Gellir anfon unrhyw hysbysiad neu ddogfen arall y gofynnwyd neu yr awdurdodwyd iddynt gael eu rhoi neu eu hanfon i'r Bwrdd neu i gorff cyhoeddus o dan Ran II o'r Ddeddf hon drwy'r post i brif swyddfa'r Bwrdd neu i brif swyddfa'r corff cyhoeddus.

(2) Gellir anfon unrhyw hysbysiad y gofynnwyd neu yr awdurdodwyd iddo gael ei roi i aelod o'r Bwrdd o dan Atodlen 1 y Ddeddf hon drwy'r post i gyfeiriad hysbys diwethaf yr aelod.

(3) Ni chymerir bod yr adran hon yn hepgor unrhyw ddull o roi neu o anfon hysbysiad neu ddogfen arall na ddarperir yn benodol ar ei gyfer gan yr adran hon.

Diddymiadau a diwygiadau ôl-ddilynol.

35. - (1) Mae'r deddfiadau y cyfeirir atynt yn Atodlen 2 y Ddeddf hon (gan gynnwys deddfiadau darfodedig) drwy hyn wedi'u diddymu i'r graddau a bennir yn nhrydedd golofn yr Atodlen honno.

O.S. 1992/1083

(2) Drwy hyn diddymir Rheoliadau Deddf Cwmnïau 1985 (Cyfrifon Cymraeg) 1992.

1978 p.10.
1967 p.66.

(3) Yn Atodlen 1 Deddf Etholiadau Senedd Ewrop 1978, ym mharagraff 2(5) (cymhwyso adran 2(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1967 at reoliadau o dan yr Atodlen honno) -

(a) yn lle “2(1)” dodir “26”;

(b) yn lle “1967” dodir “1993”; ac

(c) yn lle “enactments” dodir “Acts of Parliament”.

(4) Yn yr Atodiad o ffurflenni yn Atodlen 1 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, ym mharagraff 2(a) o'r cyfarwyddiadau ynglŷn ag argraffu papurau pleidleisio, yn lle'r geiriau o “except” hyd at “and the” dodir y geiriau “except the direction to vote for one candidate only and the”.

1985 p.50.

(5) Yn lle adran 22 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (pŵer i bennu fersiwn Gymraeg o ffurflenni a bennir mewn rhai rheolau a rheoliadau) dodir -

“Welsh forms.
1993 p.0.

22. Section 26 of the Welsh Language Act 1993 (power to prescribe Welsh forms of documents or words specified in Acts), except subsection (3), shall apply in relation to regulations made under the principal Act or this Act and rules made (or having effect as if made) under section 36 of the principal Act as it s in relation to Acts of Parliament.”

36. - (1) Yn ddarostyngedig i is-adran (2) isod daw'r Ddeddf hon i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau ar y diwrnod pryd y caiff ei phasio.

RHAN III

Cychwyn.

(2) Daw adrannau 30, 31 a 35(2), a'r diddymadau a wneir gan y Ddeddf hon yn Neddf Cwmnïau 1985, i rym ar y cyfryw ddyddiad ag a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy orchymyn a wneir drwy offeryn statudol; a gellir pennu dyddiadau gwahanol at ddibenion gwahanol.

(3) Gall gorchymyn o dan is-adran (2) uchod gynnwys y cyfryw ddarpariaethau dros dro ag a ymddengys yn angenrheidiol neu'n hwylus i'r Ysgrifennydd Gwladol.

37. Enw'r Ddeddf hon fydd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Teitl byr.

A T O D L E N N I

Adran 4

ATODLEN 1

Y BWRDD

Aelodau

1. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penodi un o aelodau'r Bwrdd yn gadeirydd y Bwrdd.

2. - (1) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau canlynol, bydd aelod o'r Bwrdd, a'r cadeirydd, yn dal eu swydd ac yn ymadael â'u swydd yn unol â thelerau eu penodiad.

(2) Caiff person ymddiswyddo o'i swydd fel aelod neu gadeirydd y Bwrdd ar unrhyw adeg drwy hysbysiad ysgrifenedig wedi'i gyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol.

(3) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddiswyddo aelod drwy hysbysiad ysgrifenedig -

- (a) os bu'r aelod yn absennol o gyfarfodydd y Bwrdd am gyfnod o dri mis o'r bron heb ganiatâd y Bwrdd, neu
- (b) os gwnaed gorchymyn methdaliad yn erbyn yr aelod, neu os atafaelwyd ei ystad, neu os gwnaeth gyfansoddiad neu drefniant gyda'i gredydwyd neu os rhoes weithred ymddiried iddynt, neu
- (c) os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod yr aelod yn anabl neu'n anaddas i gyflawni ei swyddogaethau fel aelod.

(4) Os bydd y cadeirydd yn peidio â bod yn aelod o'r Bwrdd bydd hefyd yn peidio â bod yn gadeirydd.

Talu aelodau

3. - (1) Bydd y Bwrdd yn talu i'w aelodau y cyfryw dâl a lwfansau ag a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

(2) Caiff y Bwrdd wneud y cyfryw daliadau tuag at ddarparu pensiynau i'w aelodau neu mewn perthynas â'i aelodau ag a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

(3) Os penderfyna'r Ysgrifennydd Gwladol fod amgylchiadau arbennig sy'n ei gwneud yn gywir i berson sy'n peidio â dal swydd fel aelod o'r Bwrdd gael iawndal, caiff gyfarwyddo i'r Bwrdd wneud taliad i'r person hwnnw o'r cyfryw swm ag a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

(4) Ni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud unrhyw benderfyniad o dan y paragraff hwn heb gymeradwyaeth y Trysorlys.

Datgymhwysiad Seneddol

1975 p.24.

4. Yn Rhan II Atodlen I Deddf Datgymhwysio Tŷ'r Cyffredin 1975 (cyrff y mae eu holl aelodau'n cael eu datgymhwysio) dodir y cofnod canlynol yn y man priodol -

"Bwrdd yr Iaith Gymraeg (the Welsh Language Board)."

Comisiynydd Seneddol

1967 p.13.

5. Yn Atodlen 2 Deddf y Comisiynydd Seneddol 1967 (adrannau ac awdurdodau y gellir eu harchwilio) dodir y cofnod canlynol yn y man priodol -

"Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Welsh Language Board)."

Gweithdrefn

ATOD. I

6. - (1) Bydd cworwm y Bwrdd a'i weithdrefn yn gyfryw ag a bennir gan y Bwrdd.

(2) Nid effeithir ar ddilysrwydd unrhyw rai o drafodion y Bwrdd gan unrhyw ddiffyg ym mhenodiad unrhyw aelod neu ym mhenodiad y cadeirydd, neu gan unrhyw gyfnod pan fydd swydd y cadeirydd yn wag.

(3) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol neu berson a benodwyd ganddo fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

Tystiolaeth

7. Caiff dogfen sy'n honni ei bod wedi'i gweithredu'n briodol o dan sêl y Bwrdd neu ei bod wedi'i llofnodi ar ran y Bwrdd ei derbyn fel tystiolaeth a chymerir ei bod wedi'i gweithredu neu wedi'i llofnodi felly oni phrofir i'r gwrthwyneb.

Staff

8. Wrth benderfynu -

- (a) ar nifer staff y Bwrdd,
- (b) ar y taliadau, y lwfansau a'r cildyrmau a delir i'r staff neu mewn perthynas â hwy, ac
- (c) ar delerau ac amodau gwaith eraill y staff, ni fydd y Bwrdd yn gweithredu ond gyda chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o'i rhoi gyda chaniatâd y Trysorlys.

9. - (1) Cynhwysir cyflogaeth gan y Bwrdd ymhlith y mathau o gyflogaeth y gall cynllun o dan adran 1 Deddf Blwydd-dâl 1972 fod yn gymwys iddynt; ac, yn unol â hyn, yn Atodlen 1 y Ddeddf honno (lle rhestrir y mathau hynny o gyflogaeth) ar ddiwedd y rhestr o "Other Bodies" dodir -

1972 p. 11.

"Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Welsh Language Board)."

(2) Bydd y Bwrdd yn talu i'r Trysorlys, ar y cyfryw adegau ag a gyfarwyddir gan y Trysorlys, y cyfryw symiau ag a bennir gan y Trysorlys mewn perthynas â'r cynnydd a briodolir i is-baragraff (1) uchod yn y symiau taladwy o arian a ddarperir gan y Senedd o dan y Ddeddf honno.

(3) Lle bydd person a gyflogir gan y Bwrdd -

- (a) drwy gyfeirio at y gyflogaeth honno, yn cymryd rhan mewn cynllun o dan adran 1 y Ddeddf honno, a
- (b) yn dod yn aelod o'r Bwrdd,

yna, gyda chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o'i rhoi gyda chaniatâd y Trysorlys, caiff y Bwrdd benderfynu y caiff ei dymor yn ei swydd fel aelod ei drin at ddibenion y cynllun fel cyflogaeth gan y Bwrdd (p'un a oes unrhyw fudd-daliadau'n daladwy iddo neu mewn perthynas ag ef yn rhinwedd paragraff 3(2) uchod ai peidio).

Statws

10. Ni chymerir bod y Bwrdd yn was nac yn asiant i'r Goron nac yn mwynhau unrhyw statws, imwnedd neu fraint sydd gan y Goron; ac ni chymerir eiddo'r Bwrdd fel eiddo i'r Goron nac fel eiddo a ddelir ar ran y Goron.

Treuliau

11. Gellir talu treuliau'r Bwrdd, hyd at y cyfryw swm ag a gymeradwyir gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chaniatâd y Trysorlys, gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

ATOD. I

Cyfrifon

12 - (1) Bydd y Bwrdd yn cadw cyfrifon priodol, a bydd yn paratoi datganiad o'r cyfrifon mewn perthynas â phob blwyddyn gyfrifo.

(2) Bydd y datganiad o'r cyfrifon yn cynnwys y gyfryw wybodaeth a bydd yn y gyfryw ffurf ag y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn ei chyfarwyddo.

(3) Bydd y Bwrdd yn anfon copïau o'r datganiad o'r cyfrifon at yr Ysgrifennydd Gwladol ac at y Rheolwr a'r Archwiliwr Cyffredinol erbyn 31 Awst yn dilyn diwedd y flwyddyn gyfrifo y mae'r datganiad yn ymwneud â hi.

(4) Bydd y Rheolwr a'r Archwiliwr Cyffredinol yn archwilio, ardystio a chyflwyno adroddiad ar y datganiad o'r cyfrifon a bydd yn cyflwyno copïau o'r datganiad ac o'i adroddiad gerbron dau Dŷ'r Sennedd.

(5) Y cyfnod o ddeuddeng mis yn diweddu ar 31 Mawrth fydd blwyddyn gyfrifo'r Bwrdd, ac eithrio mai'r cyfnod yn dechrau ar y diwrnod pryd y sefydlir y Bwrdd ac yn diweddu gyda'r ail 31 Mawrth yn dilyn y dyddiad hwnnw fydd y flwyddyn gyfrifo gyntaf.

Adroddiadau blynyddol

13 - (1) Cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn gyfrifo, bydd y Bwrdd yn cyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol adroddiad ar gyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn honno.

(2) Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyflwyno copi o adroddiad blynyddol y Bwrdd gerbron dau Dŷ'r Sennedd.

Adran 35.

ATODLEN 2

DIDDYMIADAU

Pennod	Teitl Byr	Graddau'r Diddymiad
27 Hen. 8. p.26.	Deddf y Cyfreithiau yng Nghymru 1535.	Y Ddeddf gyfan, cyn belled ag y mae heb ei diddymu.
34 & 35 Hen. 8. p.26.	Deddf y Cyfreithiau yng Nghymru 1542.	Y Ddeddf gyfan, cyn belled ag y mae heb ei diddymu ac eithrio adran 47.
9 & 10 Geo. 5. p.21.	Deddf y Weinyddiaeth Iechyd 1919.	Adran 11(3).
5 & 6 Geo. 6. p.40.	Deddf Llysoedd Cymru 1942.	Y Ddeddf gyfan, cyn belled ag y mae heb ei diddymu.
1967 p.66.	Deddf yr Iaith Gymraeg 1967.	Y Ddeddf gyfan, cyn belled ag y mae heb ei diddymu.
1977 p.38.	Deddf Gweinyddu Cyfiawnder 1977.	Yn Atodlen 2, paragraff 2.
1985 p.6.	Deddf Cwmnïau 1985.	Adran 21. Yn adran 242(1) a 243(4) y geiriau "Subject to section 255E (delivery of accounting documents in Welsh only).", Section 255E.

ATOD. 2

Pennod	Teitl Byr	Graddau'r Diddymiad
1985 p.10.	Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985.	Adrann 351(3) a (4). Yn adran 351(5), paragraff (c) a'r gair "and" yn union o'i flaen. Yn Atodlen 9, ym mharagraff 7(3) Rhan II, y geiriau "Subject to section 255E (delivery of accounting documents in Welsh only),".
1993 p.10.	Deddf Elusennau 1993.	Yn Atodlen 4, paragraff 85(a). Yn adrannau 5(2) a 68(1), y geiriau "in English".

Cyfieithiad yw hwn o ddeddf - 'Welsh Language Act 1993' - a chafodd ei phasio ar 21 Hydref 1993.

© Hawlfraint y Goron 1993

Dylai ceisiadau am atgynhyrchu gael eu gwneud i Wasg Ei Mawrhydi
Cyhoeddwyd gyntaf 1993

ISBN 0 11 701567 9



Mae Cyhoeddiadau Gwasg Ei Mawrhydi ar gael oddi wrth :

Canolfan Cyhoeddiadau Gwasg Ei Mawrhydi

(Archebion post, cyflun a ffôn yn unig)

Blwch Post 276, Llundain SW8 5DT

Archebion ffôn 071-873 9090

Ymholiadau cyffredinol 071-873 0011

(system aros eich tro ar gyfer y ddau rif)

Archebion cyflun 071-873 8200

Siopau Llyfrau Ei Mawrhydi

49 High Holborn, Llundain WC1V 6HB 071-873 0011 Cyflunydd 071-873 8200 (wrth y cownter yn unig)

258 Broad Street, Birmingham B1 2HE 021-643 3740 Cyflunydd 021-643 6510

33 Wine Street, Bryste BS1 2BQ 0272 264306 Cyflunydd 0272 294515

9-21 Princess Street, Manceinion M60 8AS 061-834 7201 Cyflunydd 061-833 0634

16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD 0232 238451 Cyflunydd 0232 235401

71 Lothian Road, Caeredin EH3 9AZ 031-228 4181 Cyflunydd 031 229 3734

Asiantau Achrededig Gwasg Ei Mawrhydi

(gweler Yellow Pages)

-a thrwy lyfrwerthwyr da

Cysodwyd gan Wasanaethau Cartograffig y Swyddfa Gymreig
Argraffwyd yn y Deyrnas Gyfunol ar ran Gwasg Ei Mawrhydi

£4.30 net

ISBN 0-11-701567-9



9 780117 015678